# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 09/01/2024 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Gito Williams | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Caren Jones | Gwynfor Jones | Carys Roberts | Lleucu Jones | Alaw Llewelyn Roberts |
| Janice Evans | Catrin Roberts | Rhys Llewelyn | Pat Humphreys (Clerc) | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Rhian Sanson.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Gareth Jones – eitem 4.1

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 12/12/2023
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gareth Jones    Eilio: Gwynfor Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Anrheg Rhys Tudur –** Catrin Roberts
      Mae'r anrheg yn barod ac felly mae angen trefnu noson i'w gyflwyno i Rhys Tudur. Mae un o'r aelodau wedi ei ebostio yn gofyn pa nosweithiau sydd yn rhydd ganddo ac mae hi am yrru ebost i'r aelodau hefo'r dyddiad a'r lleoliad wedi iddi dderbyn ei ymateb.
   2. **Palets Eisteddfod yn Edern –** Caren Jones
      Mae rhai o'r arwyddion croeso a roddwyd i fyny cyn yr Eisteddfod yn dal o gwmpas yr ardal, ac yn benodol yn Edern, fe addawodd Cyngor Gwynedd eu tynu i lawr ar ôl yr Eisteddfod ond nid yw hyn wedi digwydd felly mae aelod lleol Morfa Nefyn ac Edern am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i gael gwared ohonynt.
   3. **Llwybr cŵn heibio Llys Llywelyn**
      Derbyniwyd cŵyn gan aelod o'r cyhoedd fod y llwybr pwrpasol ar gyfer cŵn sy'n mynd heibio'r llwybr beics bach yn Parc y Ddôl o dan ddŵr ac o'r herwydd nid oes opsiwn ond cerdded cŵn drwy'r parc.
      Penderfyniad: gadael i bawb gerdded cŵn drwy'r parc pan mae hi wedi gorlifo ac yn y gwanwyn trefnu cyfarfod safle i drafod beth sydd angen ei wneud i rwystro hyn ddigwydd eto.
      Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Gareth Jones
   4. **Diweddariad Llwybr Penrallt –** Gruffydd Williams
      Cafwyd diweddariad gan aelod lleol Nefyn. Mae bob dim yn symud ymlaen yn dda iawn, mae cyfarfod wedi ei drefnu ar zoom dydd Iau hefo perchnogion y tir a Colin Rock Engineering a rhagwelir y bydd y gwaith yn cychwyn mis Mawrth 2024.
   5. **Arwyddion newydd i'r trac beics –** Gruffydd Williams
      Mae 2 arwydd wedi cael eu malu ac felly angen archebu rhai newydd.
      Penderfyniad: aelod lleol Nefyn i adael i'r clerc wybod pa arwyddion sydd angen eu archebu ac yna y clerc i gysylltu hefo Designer Signs.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Cynnig: Rhys Llewelyn Eilio: Arfon Hughes

6. **Cais am gyfraniad ariannol Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl**
Penderfyniad: y clerc i gysylltu nôl yn gofyn faint yn union o ardal CTN sydd yn mynychu'r clwb a faint o gyfraniad maent wedi ei dderbyn gan Cynghorau Cymuned a Thref eraill a'i roi nôl ar yr agenda wedi i ni dderbyn y wybodaeth yma.
7. **Neges gan unigolyn o Puerto Madryn –** Rhys Llewelyn
Mae un o'r aelodau wedi derbyn llythyr gan unigolyn o Puerto Madryn yn dweud ei fod yn dod i'r Eisteddfod eleni ac yna yn dweud ei fod yn dymuno dod i Gymru am tua blwyddyn ac yn chwilio am waith unai mewn Llyfrgell neu Amgueddfa a llety i aros ac yn gofyn os medrith CTN ei helpu. Mae un o'r aelodau wedi gyrru awgrymiadau iddo ac enwau iddo gysylltu â nhw ac am ddrafftio llythyr yn ôl ato yn rhoi gwahoddiad iddo i Nefyn am ddiwrnod a'i dywys o amgylch yr ardal ond nad ydy CTN yn gallu cynnig swydd na llety iddo.
8. **Fan bost symudol Edern –** Gito Williams
Nid yw'r fan bost symudol sy'n dod i Edern ar ddydd Mawrth yn troi fyny fel mae hi fod a phan mae hi yn troi fyny nid yw'r sustemau yn gweithio bob tro ac felly mae'r aelod yn gofyn i CTN ofyn i'r Swyddfa Bost os oes modd cynnal y gwasanaeth yn y Ganolfan yn Edern yn lle gyrru'r fan. Mae'r clerc wedi anfon llythyr i'r Swyddfa Bost yn barod yn dilyn pwyllgor mis Tachwedd a'r cŵyn a dderbyniwyd oherwydd fod y Swyddfa Bost yn Spar Nefyn wedi cau ac felly awgrymwyd y dylid cysylltu hefo Mabon ap Gwynfor a Liz Saville Roberts i ofyn iddynt weithredu ar ein rhan i geisio cael gwell gwasnaeth yn yr ardal.
9. **Menter Iaith Gwynedd – Gweithdy Botwnnog**
Derbyniwyd gwahoddiad gan Menter Iaith Gwynedd i weithdy ym Motwnnog ar dydd Sadwrn y 3ydd o Chwefror ac yn gofyn i CTN yrru cynrychiolydd neu ddau. Mae dau aelod yn bwriadu mynychu'r gweithdy ac mae unrhyw un arall sydd yn gallu am fynychu hefyd.

5. **Sedd Wag – Diweddariad –** Clerc
Nid oes neb wedi dangos diddordeb yn y sedd wag felly mae'r aelodau yn awyddus i ymestyn y dyddiad cau tan yr 2il o Chwefror a gadael yr hysbysebion i fyny tan hynny ac yna trafod y mater mis nesaf.

6. **Arwydd parcio Lôn Gam**
Mae'r aelodau wedi cael amser i ystyried y wybodaeth a dderbyniwyd gan Cyngor Gwynedd y mis diwethaf ac yn teimlo bod y gost yn ormod i'w gyfiawnhau cyn belled a mae'r arwyddion a awgrymwyd gan Cyngor Gwynedd yn y cwestiwn ond fe fydd yn rhaid meddwl am rhywbeth cyn tymor yr haf i ddatrys y broblem traffic ar y Lôn Gam.
Penderfyniad: archebu arwydd 'Maes Parcio yn Llawn / Car Park Full' yr un fath a'r rhai mae'r clerc wedi eu archebu yn barod ar gyfer cau y ffyrdd adeg y Nadolig a Sul y Cofio gan Dragon Signs am £49 + taw yr un. Fe fydd rhaid i'r warden roi'r arwydd ar ben y Lôn Gam pan mae'n cyrraedd ei gwaith yn y bore i rwystro cerbydau fynd i lawr i'r traeth a'i nôl ar y ffordd adref.
Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Gareth Jones

7. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
Dim.

**8. Ceisiadau Cynllunio**

Ceisiadau Diweddarach
**C23/1015/42/AC** – Plot 11 & 12 Ystad Borthwen, Edern – Cais i ddiwygio amod 2 o ganiatad cynllunio C15/0837/42/LL yn ymwneud ac edrychiad a threfniant mewnol y tai ar lleiniau 11 a 12.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Caren Jones Eilio: Gito Williams
**C23/1020/42/LL** – Ystad Borthwen, Lôn Rhos, Edern – Cais llawn i godi dau dŷ unllawr 2 ystafell wely gyda datblygiadau cysylltiol gan gynnwys parcio a thirlunio.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Caren Jones Eilio: Gito Williams

**9. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – sy'n cynnwys y gor-amser a basiwyd yn y cyfarfod diwethaf - £ 1507.45 (taliad BACS)
- John Gwynfor Jones – angladd Idris Wyn Roberts a Jane Ellen Cotgrove - £525.00
- Arfon Hughes – ad-daliad y gwresogyddion i Siop Siarad - £69.29
- A R Jones Electrical Ltd – gosod a tynnu goleuadau nadolig Morfa ac Edern - £250.00
- HMRC – PAYE Mis 9 - £242.31
- E. On Next – Trydan Llyfrgell mis Rhagfyr - £94.22
- Chris Jones – Gosod, tynu lawr a cael gwared o'r 3 coeden nadolig - £1440.00
- Ashley Hughes – Offer swyddfa - £20.00
- Alan Adams – taliad 10 cytundeb llwybrau - £1190.00

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Catrin Roberts Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

**10. Taliadau wedi eu derbyn**

- Ifan Hughes – angladd Margaret Elizabeth Evans, Gareth Vaughan Griffith a Iorwen Adams - £2865.00


Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com